**Cyngor Cymuned Betws y Coed Community Council**

**Cofnodion cyfarfod 13eg o Dachwedd 2023**

**Presennol** – Ffiona Jones (Chair) Neil Pringle (Vice-Chair) Bedwyr ap Gwyn, Chris Jones, Janet Charlton, Catherine Williams, Phil Roberts, Sian Godbert, Cllr Elizabeth Roberts, Haf Jones ( Clerk )

1. **Ymddiheuriadau**– Dim
2. **Croeso a chyflwyniadau** – Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. Dyma gyfarfod cynta' Sian Godbert's a cyflwynodd pawb eu hunain.
3. **Datgan diddordeb mewn unrhyw eitem ar yr agenda –** Sian Godbert yn datgan diddordeb yn eitem 7 ar yr agenda.
4. **Adroddiad Swyddogion Datblygu Cymuned –** Trosolwg o waith mis Hydref wedi gylchredeg hefo'r agenda. Dal i aros am ganlyniad cais UKSPF.
5. **Cofnodion cyfarfod mis Hydref –** cafwyd rhain yn gywir.
6. **Materion yn codi o'r cofnodion:-**

**Pont y Pair - pont droed** – heb fanylion costau cysylltiedig a'r sicrwydd bod arian ar gael ynghyd a yw'r cysyniad yn gyflanadwy, manylion cyfridoldebau cynnal a chadw i'r dyfodol i'r Cyngor Cymuned, penderfynnwyd rhoi'r prosiect o'r neilltu am rwan.

**Tai Ffordiadwy, Pentre Du** – amlwg o'r cais cynllunio yn eitem 8 bod y prosiect yn symund ymlaen. Awgrymodd Cyng Roberts gynnig gwahoddiad i Grwp Cynefin i gyfarfod yn y dyfodol i roi diweddariad – Gwanwyn 2024, Clerc i drefnu.

**Pont y Pair, llysdyfiant** – dim cynnydd. Clerc i sgwennu at CADW â CCBC yn mynegu pryder parhaus ac i ofyn a oes adroddiad cyflwr ar gel ar gyfer y bont.

**Fan y Llan** – dal i aros am ganlyniad y cais i UKSPF.

**CP Betws y Coed** – eitem 7ar yr agenda

**Ffordd yr Orsaf, man gollwng a chodi teithwyr** – dim ymateb gan PCE. Clerc i geisio cyfarfod ar y safle a gwneud cyswllt hefo busnesau teithiau bws.

**Archwiliad Asbestos** – dim ymateb gan y ddau gwmni a wnaethpwyd cyswllt. Clerc i ddilyn ymhellach.

**Ultimate outdoors** – Gwaith wedi'w wneud.

**Pont Soldiwrs** – Gohiriwyd yr ymgysyllitad oedd wedi drefnu at y 27ain o Hydref 1-7 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys ble oedd dyluniadau'r prosiect i'w hardangos. Dyddiad Newydd dydd Gwener 17eg o Dachwedd, 1-6 o'r gloch yn yr un lleoliad.

**Parcio am amser hir ar linellau melyn dwbwl** – dim ymateb gan Adran Gorfodaeth CBSC. Y problemau yn parhau.

**Coed, Cae Llan** – Swyddog Coed CBSC yn adrodd ei fod yn aros am bris y gwaith o docio canghennau isa'r coed sydd yn gyfochrog a'r A5.

**Adnoddau Dynol** – dim ymateb gan y cyswllt a gafwyd. Neil Pringle yn ceisio cyswllt cwmni drwy CVSC.

**Erw Hedd** – dim diweddariad ers cyfarfod ar y safle Gwanwyn 2022 – Clerc i ofyn am ddiweddariad.
**UKSPF** – Arian wedi glustnodi ar gyfer Cynghorau Tre a Chymuned. Prishiau am waith wedi'i derbyn on dim son am y ffurflen gais.
**7. CP Betws y Coed** - Cafwyd trosolwg o'r sefyllfa gan Sian Godbert. Dioddefodd y Clwb nifer o bibellau dwr wedi byrstio yn Rhagfyr 2022. Achoswyd difrod sylweddol i du mewn yr adeilad ac nid yw'n bosib ei ddefnyddio er hynny. Mae Swyddogion y Clwb yn parhau i drafod y mater hefo'r Cwmni Yswiriant ond mae gwahaniaeth sylweddol yng nghost y gwaith a'r swm mae'r cwmni'n gynnig fel setliad. Cynnigiwyd cyngor ar help posib ar gyfer trafod hefo'r cwmni yswiriant a darparwyd wybodaeth am ffynhonellau arian posib.
**8. Cynllunio NP4/11/398A Grwp Cynefin, Pentre Du** – Cynghorywr yn gefnogol i'r cais wedi'w ddiwigio.
**9. Neuadd Goffa** – llif cyson o archebion ond mae angen mwy i gwrdd a chostau rhedeg y neuadd. Gwaith diweddar o osod boiler newydd ac uwchraddio y system goleuadau argyfwng wedi costio £4967. Costau misol cyfleustodau yn £530. Mae'r broblem hefo'r meter dwr yn parhau. Mae Crest wedi dangos diddordeb mewn ailddefydio'r dodrefn dros ben ac am ymwled yn y pythefnos nesa' (ebost 13eg o Dachwedd). Cais i Gronfa Wirfoddol UKSPF yn llwyddianus. Clerc i drefnu archwiliad allanol, archwiliad egni ac ymgysylltiad annibynnol i ddeallt anghenion â dyheuadau'r gymuned parthed dyfodol y neuadd.
**10. Rhaeadr yr Ewynnol** – Er bod y safle ar agor i ymwelwyr, bydd y kiosk yn ddi-griw tan Pasg 2024. Archwilyr y safle ddwywaith yr wythnos ar gyfer archilio'r alarwm, camerau â chlirio dail i liniaru potensial o beryglon.
Daeth Asiant Tir Stad Ancaster i ymweld a 'r safle'n ddiweddar ac roedd yn hapus i gymeradwyo'r syniad o wella profiad ymwelwyr i'r rhaeadr drwy ddehongli yn cyd-fynd a'r ardal. Mae angen newid y bariau diogewlch, ffens perimedr ac uwchraddio'r kiosk. Bydd hyn yn cael eu brishio hefo'r bwriad o wneud y gwaith yn ystod tymor y gaea'. Codwyd yr atal gwaith yng ngwesty Swallow Falls a'r budd i'r ddwy ochor gan ymwelwyr a'r safle. Gwirfoddolodd Neil Pringle i fod yr aelod i genogi'r Clerc gyda materion safle.
**11.Cae Llan** – Adroddwyd gan Swyddog Coed CBSC bod y goeden Dderw pen y Ganolfan Ymwelwyr o Cae Llan wedi'w difrodi'n ddrwg gan glefyd. Mae Nant Conwy Tree Services wedi cael y gwaith o gael gwared o'r canghenau a all fod yn beryglus i ddefnyddwyr y cae. Pan fydd y gwaith wedi'w gwbwlhau, bydd ffens yn amgylchynu'r goeden, blodau gwyllt a bylbiau yn cael eu plannu oddi-mewn ynghyd a dehongliad. Gofynnodd y Cynghorwyr a fyddai posib i'r goleuadau wrth droed y goedan gael eu defnyddio i amlygu'r goeden. Derbyniwyd gwybodaeth bod y Tim Local Places for Nature CBSC wedi gweud cais i Lywodraeth Cymru gyda'r gobaith o gymeradwyo'r cysyniad o ddatblygu'r ardaloedd perimedr drwy gynllun plannu.
Dal i aros am y bris ar gyfer y gwaith o godi uchdwr y ffens tu ol y pyst gol. Penderfynnwyd ceisio tri pris. Gwirfoddolodd Chris Jones fel aelod i gefnogi'r Clerc gyda materion safle.

**12. Materion Ariannol** – cafwyd adroddiad llawn o inwm a gwariant mis Hydref ynghyd a rhestr o anfonebau angen eu talu. Cymeradwywyd gwneud y taliadau yn unol fel y rhestr. Mae HSBC wedi cymeradwyo'r mandate a'r llofnodwyr newydd. Gofynodd y Clerc am sel bendith y Cynghorwyr i archwilio gwneud taliadau yn electroneg gan roi proses i gymeradwyo mewn lle. Gwirfoddololodd Phil Roberts â Sian Godbert i fod yn aelodau o Bwyllgor Cyllid.

**13. Er Gwybodaeth**–

**Pont Soldiwrs** – Digwyddiad ymgysylltu, dydd Gwener, 17eg o Dachwedd 1-6 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys.

**Goleadau Nadolig** – Trwydded NMWTRA wedi'w derbyn, aros am drwydded CBSC fydd yn caniatau gosod y goleadau ar bolion goleuadau stryd. Clerc i drefnu Coeden Nadolig ar gyfer Pentre Du.

**Adroddiad PCSO** – 1 x ci ddim o dan reolaith yn Ogwen, 4/10/23, 17.05 ni ddethpwyd o hyd i'r perchennog. 1 x mater o ddwyn o siop yn Ffordd Caergybi 24/10/2023 11:05hrs, neb yn nabod y fenyw a amwyd. 1 x lladrad o olew coginio, ffordd Caergydi 31/10/2023 06:00hrs, credwyd bod hyn yn gysylltiedig a nifer o ddigwyddiadau ar draws y Gogledd Orllewin. 1 x YGG – beiciau modur oddiar y ffordd, llwybyr ceffyl rhwng Llyn Crafnant and Capel Curig 13/10/2023 14:00.

**CVSC - cynhadledd 3ydd sector** – Clerc wedi mynychu ac yn adrodd i fod o wedi bod yn ddigwyddiad addysgiadol gyda llawer o gefnogaeth ar gael.

**14 U.F.A**

Mynegodd Cyng Roberts ei dymuniad i weld paned gyda'r plismon yn dychwelyd fel ac yn ystod cyfnod clo a'r prosiect Canolfannau Clyd, Gaea' 2023 yn Neuadd yr Eglwys. Dim gwybodaeth wedi'w dderbyn gan y Clerc ar gyfer ariannu Canolfannau Clyd, Gaea' 2024.

Gofynnodd Ffiona Jones am gynydd gyda ail-adeiladu'r wefan, Adroddodd y Clerc y bod y gwaith yn mynd yn i flaen.

Mae car Ford Fiesta du wedi'w barcio ar ochor Ffordd Caergybi ers misoedd. Clerk i adrodd i'r Heddlu

Dyddiad y cyfarfod nesa', nos Lun 11eg o Ragfyr am 7 o'r gloch.

Signed……………………………………………….Date……………………………